## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5 (LLYN OGWEN, BWRDEISTREF SIROL CONWY) (GWAHARDD AROS) 202-

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1(1), 2(1), 2(2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwahardd aros ar unrhyw adeg, ar unrhyw ddiwrnod ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Llyn Ogwen, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Aros) 2023 (O.S. 2023/337 (Cy. 48)) yn cael ei ddirymu gan y Gorchymyn arfaethedig.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 11 Mehefin 2025 2025 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, y plan, y Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn a'r Gorchymyn sy'n cael ei ddirymu, yn rhad ac am ddim, yn Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen, Ffordd Coetmor, Bethesda LL57 3DP. Gellir gweld y dogfennau hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim yn y cyfeiriad isod, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA2319627.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu'n ysgrifenedig i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 2 Gorffennaf 2025.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phersonau a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori, caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei darparu i ni a'ch data personol. Fodd bynnag, ni fyddwn yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Os nad ydych am i'ch data personol gael eu hanfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi hyn wrth gyflwyno eich gohebiaeth. Bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu ac os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

## THE A5 TRUNK ROAD (LLYN OGWEN, CONWY COUNTY BOROUGH) (PROHIBITION OF WAITING) ORDER 202-

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 1(1), 2(1), 2(2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27(1) of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the Order will be to prohibit waiting at any time, on any day on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Notice.

The A5 Trunk Road (Llyn Ogwen, Conwy County Borough) (Prohibition of Waiting) Order 2023 (S.I. 2023/337 (W. 48)) will be revoked by the proposed Order.

During a period of 21 days from 11 June 2025, a copy of the proposed Order, plan, the Statement of Reasons for making the Order and the Order being revoked may be inspected, free of charge, at Dyffryn Ogwen Community Library, Ffordd Coetmor, Bethesda LL57 3DP. The documents can also be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders or obtained free of charge from the address below, quoting reference number qA2319627.

Objections, specifying the grounds on which they are made, should be sent by e-mail to Transportordersbranch@gov.wales or in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ by 2 July 2025.

Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with people and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process we may pass information to them, including information you have provided and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. If you do not wish for personal data to be forwarded to third parties, you should state this when submitting your correspondence. The Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a public inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

**Gellir cael copi print bras o’r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M J CLARKE**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

Y darn o ochr ogleddol y gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 66 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth sy’n gyfagos i Fwthyn Ogwen hyd at bwynt 2,897 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth honno.

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 66 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth sy’n gyfagos i Fwthyn Ogwen hyd at bwynt 1,315 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth honno.

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 1,460 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth sy’n gyfagos i Fwthyn Ogwen hyd at bwynt 1,995 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth honno.

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 2,392 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth sy’n gyfagos i Fwthyn Ogwen hyd at bwynt 2,898 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth honno.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M J CLARKE**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE**

The length of the northern side of the trunk road that extends from a point 66 metres east of the centre-point of its junction with the unclassified road adjacent to Ogwen Cottage to a point 2,897 metres east of the centre-point of its junction with that unclassified road.

The length of the southern side of the trunk road that extends from a point 66 metres east of the centre-point of its junction with the unclassified road adjacent to Ogwen Cottage to a point 1,315 metres east of the centre-point of its junction with that unclassified road.

The length of the southern side of the trunk road that extends from a point 1,460 metres east of the centre-point of its junction with the unclassified road adjacent to Ogwen Cottage to a point 1,995 metres east of the centre-point of its junction with that unclassified road.

The length of the southern side of the trunk road that extends from a point 2,392 metres east of the centre-point of its junction with the unclassified road adjacent to Ogwen Cottage to a point 2,898 metres east of the centre-point of its junction with that unclassified road.